**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 5 Gorffennaf, 2022.

Mae'r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Cynghorwyr L. Burnett, M.J.G. Morgan a J.M. Norman.

Hefyd yn bresennol: Swyddog Trwyddedu (Cyngor Bro Morgannwg), Swyddog Cyfreithiol (FTB Siambrau), Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Bro Morgannwg), Mr. C. Birch a Mrs. B. Pugh

EITEM AGENDA 1. PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd M.J.G. Morgan yn cael ei benodi'n Gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 3. CANIATÁU TRWYDDED SAFLE – CAFFI FREDWELL, STABLAU PANT WILKIN, ABERTHIN, Y BONT-FAEN –

PENDERFYNWYD – Y caiff y cais, gydag amodau diwygiedig, ei gymeradwyo.

Rhesymau dros y penderfyniad

Wrth ddod i'r penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi gwrando'n ofalus ar y sylwadau a wnaed yn ystod y gwrandawiad gan bob parti ac wedi ystyried sylwadau ysgrifenedig y preswylydd a ddewisodd beidio â bod yn bresennol.

Nodwyd bod sylwadau'r heddlu wedi'u tynnu'n ôl ar ôl i'r ymgeisydd dderbyn yr amodau yn eu llythyr dyddiedig 6 Mehefin, 2022 (Atodiad B).

Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y datganiad o bolisi trwyddedu; Canllawiau'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a gyhoeddwyd o dan a.182 ALI 2003; a Deddf Hawliau Dynol 1998.
Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod hwn yn gais gwylaidd. Roedd y safle'n fach heb unrhyw effaith hanesyddol. Nid oedd gan yr Is-bwyllgor unrhyw reswm dros gredu y byddai caniatâd i werthu alcohol gyda phryd bwrdd y tu mewn i'r safle yn newid y sefyllfa hon.

Fel amddiffyniad pellach, mae'r Is-bwyllgor wedi atodi amodau pellach i'r drwydded a fyddai'n cyfyngu ar ei weithrediad, fel a ganlyn:-

1. Byddai system Teledu Cylch Cyfyng yn cael ei gosod i safon y cytunir arni fel y cymeradwyir gan Heddlu De Cymru, a bydd yn cael ei chynnal, ei chadw a'i gweithredu bob amser y mae'r safle ar agor i'r cyhoedd. Byddai'r system yn cadw golwg ar bob rhan o'r safle lle mae gan y cyhoedd fynediad (ac eithrio tai bach) gan gynnwys pob mynedfa ac allanfa cyhoeddus. Byddai'r delweddau ar gael am o leiaf 31 diwrnod. Byddai'r delweddau yn cael eu rhoi i un o gyflogeion yr Heddlu ar gais, mewn fformat y gellir ei chwarae ar unwaith, pan fo'r safle ar agor i'r cyhoedd, ac ar adegau eraill cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Byddai nifer ddigonol o staff hyfforddedig i hwyluso'r uchod.

2. Byddai'r safle'n gweithredu polisi 'Her 25'. Byddai'r polisi hwn yn cael ei ddwyn i sylw cwsmeriaid gan staff a thrwy arddangos arwyddion priodol. Yr unig fath o brawf adnabod a dderbynnir fyddai cardiau adnabod â ffotograff arnynt, megis trwydded yrru, pasbort, Cerdyn Lluoedd EM neu gerdyn cynllun prawf oedran gyda logo PASS.

3. Byddai cofnod digwyddiadau'n cael ei gadw yn y safle. Byddai unrhyw achos o drosedd neu anhrefn a welwyd gan staff neu unrhyw ddigwyddiad a gofnodwyd gan gwsmeriaid yn cael ei adrodd yn y log. Dylid cofnodi'r wybodaeth ganlynol mewn perthynas â phob digwyddiad:-

- Dyddiad ac amser y digwyddiad
- Enw'r person sy'n gwneud yr adroddiad
- Enwau'r partïon perthnasol (os yn hysbys) neu ddisgrifiad o'r partïon (mor fanwl â phosibl)
- Natur y digwyddiad
- Unrhyw gamau gweithredu a gymerir ar ôl hynny
- Gwrthod gwerthu

Byddai staff yn cael eu hyfforddi yn unol â'u cyfrifoldeb i gwblhau adroddiad digwyddiad. Byddai mynediad i adroddiadau digwyddiadau ar gael i Heddlu De Cymru ar gais.

4. Byddai'r holl staff sy'n delio â chwsmeriaid yn derbyn hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â gwerthu alcohol a hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Byddai'r hyfforddiant hwn yn cael ei adnewyddu'n flynyddol gyda chofnod yn cael ei gadw ar y safle. Byddai'r cofnod hyfforddi yn cael ei gadw am gyfnod o 12 mis a byddai ar gael i'w archwilio ar gais gan Swyddog Heddlu De Cymru neu berson awdurdodedig arall.

5. Byddai o leiaf 50% o'r ardal drwyddedig yn fyrddau a chadeiriau

6. Pryd bynnag y caiff y safle ei logi ar gyfer digwyddiad preifat neu fod digwyddiad wedi'i gynllunio ymlaen llaw yn cael ei gynnal yno a bod alcohol yn cael ei werthu, byddai'r Goruchwylydd Safle Dynodedig neu Ddeiliad Trwydded personol yn bresennol drwy gydol y digwyddiad.

7. (Fel y’i diwygiwyd) Ni ddylai gwirod meddwol gael ei werthu na’i gyflenwi ar y safle ac eithrio i bobl sy’n bwyta pryd o fwyd wrth fwrdd.

Cafodd yr Is-bwyllgor ei galonogi gan y ddeialog a oedd eisoes yn digwydd rhwng Mrs Pugh a'r Ymgeisydd ac anogodd i hyn barhau. Pe bai problemau'n codi mewn cysylltiad â'r safle na ellir eu datrys, atgoffwyd Mrs Pugh o'i hawl i geisio adolygiad o'r drwydded yn ddiweddarach.

Roedd gan unrhyw berson a gyflwynodd sylwadau yn erbyn cymeradwyo’r drwydded hon hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Rhaid i unrhyw apêl gael ei gwneud yn ysgrifenedig i'r Llys Ynadon 21 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad.